**Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd NWR 03-02(p1)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 24 Mai 2002 |
| **Amser:** | 10.00am hyd 1.00pm |
| **Lleoliad:** | Neuadd Goffa Newydd, Groesffordd |

**ADRODD YN ÔL O'R CYFARFOD DIWETHAF**

1. Yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth, ysgrifennodd y Cadeirydd at:

- Gadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, i dynnu sylw at gynnwys cofnodion y cyfarfod;
- Cadeirydd y Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol, yn awgrymu y dylid trafod mynediad a chyfleusterau mewn adeiladau awdurdodau lleol ar gyfer pobl anabl yn un o gyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth yn y dyfodol;
- Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol Consignia ar gyfer Cymru, ynghylch gwasanaethau post rhatach i bobl ddall, a dosbarthu llenyddiaeth yn rhad ac am ddim;
- Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i nodi'r pryder a fynegwyd ynghylch y diffyg cyfleusterau ar gyfer trin cleifion sy'n dioddef o osteoporosis yn y rhanbarth.

2. Mae copïau o'r llythyrau wedi'u hamgáu yn atodiadau 1 i 4

3. Yn ystod y drafodaeth, addawodd y Prif Weinidog y byddai'n ysgrifennu at aelodau'r cyhoedd a gododd y pynciau canlynol:

- y cyllid a ddarperir i Gyngor Sir Ddinbych i roi cymorth tuag at ddarparu bysiau;
- cyhoeddi Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer pobl hn, ac yn benodol yr argymhellion ar ddarparu gwasanaethau i bobl sydd wedi dioddef strôc;
- lefel y gwasanaeth a ddarperid gan North Western Trains er mwyn lleihau tagfeydd pan fyddai gwaith ar y ffordd;
- adnoddau digonol ym maes rheoli poen;
- trefniadau teithio a chyfleusterau addas ar gyfer pobl anabl.

4. Mae copïau o'r holl ymatebion wedi'u hamgáu yn atodiadau 5 i 9.

5. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi’r ohebiaeth.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mai 2002